



CYNLLUN BENTHYCA I WELLA TAI

Mae'r cynllun hwn, sy'n cael ei gynnig gan Gyngor Sir Ynys Môn mewn partneriaeth a Llywodraeth Cymru, yn darparu benthyciadau di-log i help gyda'r costau o adnewyddu eiddo. Mae ar gael i berchen-ddeiliaid, perchennogion eiddo gwag sydd eisiau byw yn yr eiddo eu hunain, landlordiaid, datblygwyr ac elusennau/y trydydd sector.

Dylai ymgeiswyr lenwi Ffurflen Mynegi Diddordeb a'i hanfon at y Tîm Tai Gwag, Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni, LL77 7TW. Unwaith y byddwn wedi ei derbyn, byddwn yn cysylltu gyda chi i drefnu dyddiad ac amser addas i'ch cyfarfod yn yr eiddo ar gyfer ymweliad safle ac i drafod y broses ymgeisio gyda chi'n fanylach.

Nodwch, os gwelwch yn dda, nad yw unrhyw gynnig o fenthyciad wedi ei warantu hyd nes y byddwch wedi derbyn cymeradwyaeth ffurfiol gan y Cyngor.

BENTHYCIADAU DI-LOG

- Mae'r math hwn o Gymorth yn ddewisol.
- Y benthyciad lleiaf sydd ar gael yw £1000, hyd at uchafswm o £35,000 fesul uned o lety.
- Os nad yw'r benthyciad yn ddigon i dalu am gost lawn y gwaith, bydd gofyn cael tystiolaeth o gyllid digonol i sicrhau bod y prosiect yn hyfyw yn ariannol.
- Fe fyddwn yn ystyried unrhyw arian sydd wedi'i fenthycio eisoes fel sicrwydd yn erbyn yr eiddo.
- Bydd yr holl fenthyciadau yn ddi-log, fodd bynnag bydd ffi weinyddol yn daladwy. Gellir ychwanegu'r ffi hon at faint y benthyciad y gwnewch gais amdano, neu gallwch ei thalu ar y cychwyn.
- Bydd pob benthyciad yn cael ei sicrhau fel pridiant cyntaf neu ail bridiant yn erbyn Teitl y Gofrestrfa Dir.
- Byddwn yn cytuno ar y telerau ad-dalu ar sail pob achos unigol, dros gyfnod benthycio o hyd at 9 mlynedd ar yr hiraf. Bydd gofyn i landlordiaid, datblygwyr ac elusennau ad-dalu'r benthyciad o fewn cyfnod o 5 mlynedd ar yr hiraf.
- Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn ôl disgrisiwn y Pennaeth Gwasanaethau Tai, gall y Cyngor gynnig Benthyciad Arbrisant Eiddo neu Fenthyciad Oes lle mae ymgeisydd yn methu'r asesiad ariannol a bod angen gwneud gwaith gwella i wneud y tŷ yn "ddiogel, yn gynnes ac yn saff".

Byddwch yn gorfod talu am unrhyw waith y byddwch yn ymgymryd ag ef cyn derbyn cymeradwyaeth.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Tai Gwag:

 **Gwasanaethau Tai - Cyngor Sir Ynys Môn - Llangefni - Ynys Môn - LL77 7TW**

 **01248 752301/752283**

 **swyddogtaigwag@ynysmon.gov.uk**